**DRAFT**

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 6:30 y.h. NOS IAU, MEHEFIN 6, 2019 YN SIAMBR Y CYNGOR, STRYD PENLAN, PWLLHELI.

**Cof; - 0106/19 -** Presennol.

Cynghorwyr , Eric W. Roberts, M. Sol Owen, Parch Ioan Gruffydd, D. O. Jones, Mici Plwm, Hefin Underwood, Elfed Gruffydd, Dr Iwan Edgar, A Williams, Elin Hywel, M. Parry.

Clerc E. Price.
……..

**Cof; - 0206/19 -** Ymddiheuriadau.

Cynghorwyr; Dylan Bullard, Henry Rees Williams, Ffiona Adams.

……

**Cof; - 0306/19 -** Datgan Diddordeb.

Dim diddordeb yn cael ei ddatgan.

……

**Cof; - 0406/19 -** Aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

…….

**Cof; - 0506/19 -** Gair gan y Maer.

Gair ac adroddiad y Maer yn y llyfr cofnodion.

……

**Cof;-0606/19** - Materion cyfansoddiadol a staff.

Derbyn model brotocol datrysiadau lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. Unllais Cymru.

Penderfynu derbyn.
**…….**

**Cof; - 0706/19 -** Cadarnhau cofnodion cyfarfod blynyddol mis Mai, 2019 fel rhai cywir a llofnodwyd hwy yn unol ar gyfraith.

**Cof;- 0806/19** - Adroddiad clerc.

Derbyniwyd yr adroddiad . Adroddiad yn y llyfr cofnodion.

**……**

**Cof;-0906/19**

a) Derbyn ffurflen flynyddol cyfrifon am 2018-19 a datganiad newydd cyfrifon 2017-18.

Penderfynu derbyn.

b) Derbyn adroddiad llywodraethu cyfrifon.

Penderfynu derbyn.
.....

**Cof;-1006/19 -** Cynllunio.

Dim cynlluniau yw trafod.
.....
**Cof;-1106/19.** Trafodaeth/cyflwyniad gyda Thad Huw Bryant.

Maer yn diolch i'r Tad Huw Bryant am ei gyflwyniad. Mae gwaith er lles unigolion y dref gan yr Eglwys yw canmol.

Bydd dadorchuddio Cerflun Newydd o Fair Forwyn y Môr Gorffennaf 8fed am 6 y.h. yn Eglwys St Peters.
.....

**Cof;-1206/19**. Cyflwyniad gan swyddog cymunedol Pen Llyn- Tesni Roberts gyda . Manon Williams – Arweinydd Ardal Llŷn, Oedolion, Iechyd a Llesiant.

Maer yn diolch i Tesni Roberts a Manon Williams am eu chyflwyniad ac eto am y gwaith sydd yn cael ei wneud er lles unigolion. Mae llyfryn "Edrych ar ol fy hun" yn llawn gwybodaeth am fudiadau a gwasanaethau llesiant lleol Gwynedd.
.....

**Cof;-1306/19 -** Cais am gymorth ariannol gan Glwb Snwcer Pwllheli.

Penderfynu gwrthod oherwydd arian sydd gan y clwb yn y banc. Doedd dim defnydd o'r £1,000 rhoddwyd ym mlwyddyn ariannol 2018-19 yw gweld.

.....

**Cof; - 1406/19 -** a) Contract i swyddog cynnal a chadw gyda'r oriau ychwanegol bydd ei angen i'r clerc rheoli. Cyng. Elin Hywel.

Penderfynu trafod yn bellach mewn cyfarfod is bwyllgor.

b) hawl i drafod gyda Chynghorau eraill. Cyng. Elin Hywel.

Cytuno i roi'r hawl i'r Cyng. Elin Hywel trafod gyda chynghorau eraill.

……..

**Cof; - 1506/19** - Cyfarfod cyffredinol blynyddol Un llais Cymru. Cynghorau yn cael cyflwyno uchafswm o ddau gynnig i drafod yn y cyfarfod.

Penderfynu'r Cyng. Mike Parry roi sylw i'r mater ac edrych i roi cynnig sydd yn gyd fynd a materion Bwrdd Iechyd. Enghraifft yw'r amser annerbyniol mae'r gwasanaeth ambiwlans yn ei gymryd i ymateb i alwad.

Llongyfarchiadau i'r Cyng. Mike Parry ar gael ei ddewis fel cynrychiolydd Unllais mewn cyfarfodydd Bwrdd Iechyd.

**……..**

**Cof;-1606/19 -** Penderfyniadau parthed phrosiect tybiau blodau - eglurdeb ar y ffordd ymlaen clerc.

Penderfynu trafod mewn cyfarfod is-bwyllgor dyddiedig 11-06-19.

……..

**Cof;-1706/19 -** Baneri i'r Maes. Cyng. Henry Rees Williams.

Penderfynu trafod mewn cyfarfod is-bwyllgor dyddiedig 11-06-19.

.....

Cof;-1806/19 - Peipiau o Bont Solomon i Lon Co-bach. Cyng. Henry Rees Williams.

Ymlaen i'r Cyngor nesaf.
.....

**Cof;- 1906/19** - . Cais am gyfraniad gan Glwb Hwylio Pwllheli tuag at Regata Pwllheli 2019.

Penderfynu rhoi'r £200 gofynnwyd am pan fydd y ffurflen cais priodol wedi ei dderbyn gan y clerc.

.....

**Cof;- 2006/19** - Llythyr Drws i Ddrws ar y bwrdd.

Trafodwyd y llythyr a derbyniwyd gan Ddrws i Ddrws a phenderfynu'r clerc pennu ymateb.
.....

**Cof;-2106/19** - Materion angen trafodaeth.

- Delwedd - llythyr ar y bwrdd- Maer i arwyddo'r contract GDPR.
- Safle bws ASDA - llythyr ar y bwrdd - clerc i bennu ymateb gyda sylwadau'r Cyngor Tref i symud y safle bws.
- Gruffudd Eifion Owen - Bardd Plant Cymru 2019-21. Cyngor yn ymestyn llongyfarchiadau i Gruffudd Eifion Owen.
- Arwyddo contract toiledau - Maer yn arwyddo'r contract.

**.....**

**Cof;-2206/19 –** Derbyniadau
Cytunwyd.

| | | |
|---|---|---|
| 250 | Rhent Adams. | CR |
| 250 | Rhent Adams. | CR |
| 75 | Arian High Sheriff. | CR |
| 3,026.95 | Arian TAW. | CR |
| 36,500 | Praesept. | CR |

.....

**Cof;-2306/19 –**Taliadau
Cytunwyd.

| | | |
|---|---|---|
| 1050.50 | 2 X mainc newydd. | 203122 |
| 200 | Cyfraniad S137 Drws i Ddrws. | 203123 |
| 58.24 | Anghenion swyddfa cyf. 2 x llyfr arian man. | 203124 |
| 1,000 | Cyfraniad i Ŵyl Fwyd Pwllheli s145. | 203125 |
| 937.06 | Costau gweinyddol rhedeg y Siambr. | Sieciau. |
| 360 | Lwfans Cynghorwyr. | Sieciau. |
| 460.50 | HMRC. | 203126 |
| | | |

Daeth y Cyngor i ben am 8 30 y.h.

Cynhelir Cyfarfod y Cyngor Tref Nos Iau 4ydd o Gorffennaf 2019.

Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 27 Mehefin 2019.